



HM Prison &
Probation Service

Cynllun Gweithredu: Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi y Parc

Dyddiad Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu: 30 Ionawr 2024

Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP): 09 - 19
Hydref 2023

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 23 Ionawr 2024

CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EF ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a'r ffordd y cânt eu trin. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mewn ymateb i'r adroddiad, rhaid i HMPPS / MoJ lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r pryderon allweddol. Mae cynlluniau gweithredu'n darparu camau a champau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a'r pryderon allweddol, sy'n glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol, gan nodi perchennog ac amserlen pob cam yn glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at HMIP a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd y cynnydd mewn perthynas â'r gwaith o weithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro ac yn cael ei adrodd.



CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD HMIP

SEFYDLIAD: SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC Y PARC

| 1. Rhif yr Argymhelliad | 2. Pryderon | 3. Ymateb Camau a Gymerwyd / a Gynlluniwyd | 4. Perchennog Cyfrifol | 5. Dyddiad Targed |
|-------------------------------|---|---|------------------------------|-------------------------|
| | Pryderon â blaenoriaeth | | | |
| 1 | <p>Roedd rhai plant wedi cael eu gwahanu am ormod o amser ac roedd eu harferion rheolaidd yn destun cyfyngiadau gormodol. Roedd nifer y plant a oedd wedi'u gwahanu o dan Reol 49 y Sefydliad Troseddwyd Ifanc (YOI) wedi cynyddu ac roedd eu goruchwyliaeth wedi dirywio.</p> | <p>Bydd Pennaeth yr Uned Blant yn gwella goruchwyliaeth a'r drefn arferol ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno fframwaith gwahanu newydd y Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa (YCS) a fydd yn hwyluso dull cyson o gynnal adolygiadau Rheol 49 (R49). • Cyflwyno un model rheoli achosion ar gyfer pob plentyn sydd wedi gwahanu er mwyn sicrhau cynnydd a chysondeb rhwng adolygiadau. • Bydd Uwch Seicolegydd YCS yn goruchwyllo'r gwaith o reoli achosion yr holl blant sydd wedi'u gwahanu o dan R49, er mwyn cefnogi'r rheolwr achos ynghylch unrhyw faterion seicolegol posibl sy'n codi o ganlyniad i'r gwahanu. • Sicrhau bod y broses o gynllunio ailintegreiddio yn dechrau ar y pwynt gwahanu, a'i fod yn cynnwys mewnbwn gan yr holl swyddogaethau allweddol i sicrhau bod y plentyn yn cael trefn arferol bwrpasol o ran addysg, y gampfa, gweithgareddau yn yr adain a seicoleg. • Cyflwyno goruchwyliaeth ychwanegol ar gyfer gwahanu drwy wiriadau sicrwydd dyddiol ar gyfer unrhyw blentyn ar R49, gan sicrhau eu bod wedi cael cynnig o leiaf 2 awr fandadol o Amser y Tu Allan i'r Ystafell. Bydd yr gwiriadau sicrwydd yn sicrhau bod holl ddogfennau R49 wedi'u cwblhau, bod adolygiadau'n digwydd ar amser, a phan fydd plentyn yn gwrthod bod yn bresennol yn yr adolygiad, y caiff ei gofnodi ynghyd â'r rhesymau dros hynny. | Cyfarwyddwr | Chwefror 2024 |

| | | | | |
|---|--|--|-------------|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd pob plentyn newydd sydd wedi'i wahanu yn cael ei neilltuo i aelod penodol o'r Uwch Dîm Arwain at ddiben rheoli achosion, ac yn cael ei gyfeirio at y tîm datrys anghydfodau i archwilio'r rhesymau pam ei fod yn cael ei wahanu, gan greu camau priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau. • Bydd yr holl blant sydd wedi'u gwahanu yn cael eu trafod yn y cyfarfod boreol dyddiol i sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol ac amserol. • Bydd cyfarfod misol y grŵp monitro ac adolygu Pobl Ifanc (PI) yn monitro'r defnydd o wahanu er mwyn nodi unrhyw dueddiadau yn y defnydd ohono, er mwyn gallu archwilio'r rhesymau dros hynny. | | |
| 2 | <p>Nid oedd hyrwyddo cydraddoldeb wedi cael ei flaenoriaethu a chafodd ei danseilio gan ddiffyg staffio cyson i gydlynu a gyrru'r gwaith. Roedd hyn yn llesteirio dealltwriaeth arweinwyr o ganfyddiadau plant yn y maes hwn.</p> | <p>Bydd Pennaeth yr Uned Blant yn gwella'r gwaith o hyrwyddo, goruchwyllo a chydlynu gwaith cydraddoldeb drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pennu Uwch Reolwr a fydd yn gyfrifol am yr holl waith cydraddoldeb yn yr uned blant. • Cyflwyno Rheolwr Cydraddoldeb a Llais y Plentyn (EVCM) newydd a fydd yn gyfrifol am oruchwyllo'r holl waith cydraddoldeb, gan gynnwys 'Llais y Plentyn', i gael gwell dealltwriaeth o bryderon a chanfyddiadau plant er mwyn galluogi Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc i godi proffil cydraddoldeb ac amrywiaeth. • Cyhoeddi amserlen o gyfarfodydd ymgynghori lle gall plant godi unrhyw bryderon. Bydd yr EVCM yn sicrhau bod cynnydd o ran presenoldeb plant a staff yn y cyfarfodydd hyn. Bydd data monitro yn cael ei rannu yn y cyfarfodydd i annog trafodaethau a chynhyrchu camau gweithredu i sbarduno gwelliannau. • Bydd yr EVCM yn cydlynu'r gwaith o hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol gyda phob adran, gan gynnwys y tîm preswyl, gan sicrhau eu bod yn cael eu hyrwyddo'n briodol i ganiatáu i blant fynychu/cymryd rhan ynddynt. • Bydd Pennaeth yr Uned Blant yn cwblhau gwiriadau Sicrhau Ansawdd misol o'r holl Ffurflenni Cofnodi Digwyddiadau Gwahaniaethu (DIRF) a gyflwynir, gan sicrhau eu bod yn cael eu hymchwilio'n briodol ac yr ymatebir iddynt o fewn amserlenni derbyniol. Bydd adborth ac arweiniad yn cael eu darparu yn | Cyfarwyddwr | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ionawr 2024</p> <p>Chwefror 2024</p> <p>Mai 2024</p> <p>Ionawr 2024</p> |



| | | | | |
|---|--|---|---|---|
| | | <p>ôl yr angen i'r holl staff ar ôl cwblhau unrhyw DIRF. Bydd gwiriadau allanol annibynnol ychwanegol o DIRFs yn cael eu harchwilio.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd monitro strategol o fesurau Amrywiaeth a Chynhwysiant yn digwydd yng nghyfarfod grŵp monitro ac adolygu PI, dan gadeiryddiaeth Pennaeth yr Uned Blant, i fonitro gwelliannau a sicrhau bod camau gweithredu yn y cynllun gweithredu yn cael eu holrhain a'u cwblhau o fewn amserlenni derbyniol. • Bydd yr EVCM yn coladu ac yn dadansoddi'r holl ddata Amrywiaeth a Chynhwysiant i nodi unrhyw anghymesuredd i'w drafod yng nghyfarfod y grŵp monitro ac adolygu PI, lle gellir cytuno ar gamau gweithredu priodol i fynd i'r afael â materion, eu cynhyrchu a'u cydlynu. | | <p>Ionawr 2024</p> <p>Mai 2024</p> |
| 3 | <p>Roedd anghysondebau o ran y defnydd o staff addysg, a diffygion o ran ansawdd yr addysgu a'r asesu. Nid oedd digon o oruchwyliaeth o ran datblygiad dysgwyr; roedd llawer wedi ymddieithrio ac wedi gwneud cynnydd araf tuag at achrediaid, ac roedd cyrhaeddiad mewn ychydig o bynciau yn isel.</p> | <p>Bydd y darparwr dysgu a sgiliau (Novus Gower) a'r Pennaeth Dysgu a Sgiliau (HoLS) yn gwella'r defnydd o staff ac ansawdd yr addysgu a'r asesu er mwyn gwella ymgysylltiad a chyrhaeddiad dysgwyr drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio tri aelod o staff addysgu amser llawn ac un gweithiwr cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i sicrhau bod pynciau'n cael eu haddysgu gan diwtoriaid rheolaidd. • Cyflwyno cwricwlwm newydd i bobl ifanc o fis Mawrth 2024 ymlaen yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur, a fydd yn cynyddu ffocws galwedigaethol a gwell cyfleoedd i ennill cymwysterau lefel uwch a chymwysterau a gydnabyddir yn fwy eang sy'n ystyried anghenion addysgol, hyfforddiant a chyflogadwyedd plant yn y dyfodol. Gan gynnwys cyflwyno cymwysterau busnes/cyflogadwyedd yn Sefydliad Troseddwr Ifanc y Parc. • Bydd y darparwr dysgu a sgiliau yn gweithredu rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) lawn a phroses monitro ansawdd i sbarduno gwelliannau mewn addysgu a dysgu, gan sicrhau bod eu staff yn addysgu i raddau da neu raddau rhagorol, a bod gan diwtoriaid ddealltwriaeth glir o anghenion dysgwyr. | <p>Darparwr Dysgu a Sgiliau / Cyfarwyddwr / HMPPS Cymru</p> | <p>Chwefror 2024</p> <p>Mawrth 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> |



| | | | | |
|--|--|---|--|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr HoLS yn monitro ansawdd yr adborth a roddir gan athrawon i blant fel rhan o'r broses monitro ansawdd, gan sicrhau ei fod yn egluro'n glir sut y gall dysgwyr wella eu gwaith fel y gallant ddysgu o'u camgymeriadau a gwneud cynnydd cyson. • Rhoi system diwtorial newydd ar waith i gefnogi dysgwyr i ennill cymwysterau mewn ffordd fwy amserol, gan ganolbwyntio mwy ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd. • Cyflwyno rhaglen bersonol, gymdeithasol, iechyd ac economaidd a rhaglen iaith Gymraeg / diwylliant Cymreig i gefnogi cyfleoedd datblygu cyfannol. • Cefnogi ymgysylltiad teuluoedd ag addysg drwy nosweithiau rhieni sy'n cael eu cynnal ar y cyd rhwng Novus Gower a G4S. • Ailwampio'r broses gynhyrchu ac ansawdd Cynlluniau Dysgu a Gwaith Unigol (ILWP) a'u defnydd drwy gydol y daith ddysgu, er mwyn cefnogi cynnydd cyflymach ymysg dysgwyr a mwy o ddewis i ddysgwyr. Bydd yr ILWP newydd yn cynnwys gwelliannau o ran gosod targedau 'manylach'. • Bydd y darparwr dysgu a sgiliau yn sicrhau bod pob plentyn yn destun asesiad anghenion a dymuniadau cychwynnol, o fewn pum diwrnod gwaith i gyrraedd y carchar. Bydd y wybodaeth o'r asesiad yn cael ei rhannu â'r holl athrawon a thiwtoriaid, ac yn cael ei chynnwys mewn ILWP er mwyn i'r plant dderbyn y cymorth angenrheidiol yn eu gweithgareddau penodedig. • Gwella dyraniadau fel eu bod yn seiliedig ar anghenion addysgol, ac wedi'u llywio gan risg drwy drafodaethau mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth boreol. • Bydd gwybodaeth am ADY carcharorion yn cael ei rhannu â'r holl diwtoriaid cyn gynted ag y bydd y '<i>do it profiler</i>' wedi'i gwblhau, gan eu galluogi i gynllunio gwersi a chefnogi'r unigolyn. • Diweddarau cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth (TG) ar draws yr ystâd ieuencid i ganiatáu mwy o fynediad at offer TG i ddysgwyr ac athrawon, ac i wreiddio addysgu sgiliau llythrennedd digidol, gan alluogi tiwtoriaid i gael mynediad at wybodaeth a'i rhannu'n effeithiol. • Cynnal sesiynau Llais y Dysgwr chwarterol i lywio'r gwaith o ddatblygu cynnig cwricwlwm newydd a monitro ansawdd y ddarpariaeth. | | <p>Mawrth 2024</p> <p>Mawrth 2024</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> |
|--|--|---|--|--|



| | | | | |
|---|--|--|---|---|
| | | <ul style="list-style-type: none"> Bydd gwelliannau a chynnydd o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg yn cael eu monitro a'u holrhain yng nghyfarfod wythnosol y Rheolwyr, cyfarfod misol y Grŵp Rheoli Gweithredol (OMG) a bob chwarter drwy gyfarfod y Grŵp Adolygu Contractau (CRG). | | Wedi'i gwblhau |
| 4 | <p>Roedd trefniadau partneriaeth a rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn araf i gefnogi'r broses o drosglwyddo darparwyr addysg yn llwyddiannus. Dim ond yn ddiweddar y gweithredwyd trefniadau partneriaeth i gefnogi gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg neu i wella'r cwricwlwm. Fel arall, nid oedden nhw ar waith.</p> | <p>Bydd Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc a'r darparwr dysgu a sgiliau yn gwella trefniadau partneriaeth i gefnogi gwelliannau i addysg a'r cwricwlwm drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi byrddau partneriaeth ar waith rhwng CEF, Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc a'r darparwr dysgu a sgiliau, wedi'u cyd-gadeirio gan Gyfarwyddwr y carchar, i fonitro a chefnogi'r gwaith o ddarparu a gwella addysg ar draws y safle cyfan. Sicrhau bod eitem benodol i blant ar yr agenda i drafod darpariaeth addysg benodol fel rhan o gyfarfod bwrdd y bartneriaeth. Darparu cyfleoedd cyfoethogi addysgol newydd ar brynhawniau Gwener, ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd. Bydd G4S a Novus Gower yn cydweithio i gynnig opsiynau Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL) addysgol a hyfforddiant i blant. Cyfarfodydd misol rhwng Novus Gower a Thîm Rheoli'r Uned PI i archwilio cyfleoedd ar gyfer mwy o weithio mewn partneriaeth. Bydd pob aelod staff addysg yn mynychu'r cyfarfod boreol dyddiol i wella'r cydweithio. Gwella'r gofod ffisegol sydd ar gael i staff addysg gydweithio, cynllunio a gweithredu cwricwlwm cydlynol. Sicrhau bod gan diwtoriaid fynediad gwell at systemau data, cofnodion ffisegol, deunyddiau addysgu ac adnoddau dysgwyr, gan gynnwys rhannu staff addysgu ac adnoddau o'r safle oedolion yn ôl yr angen i helpu i wella'r ddarpariaeth. | <p>Darparwr Dysgu a Sgiliau / Cyfarwyddwr / HMPPS Cymru</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mawrth 2024</p> <p>Mai 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Mai 2024</p> |



| | | | | |
|---|--|--|---|---|
| 5 | <p>Nid oedd strategaeth ddarllen yn bodoli. Nid oedd y llyfrgell yn gweithio gydag addysg i hyrwyddo llythrennedd ac ni allai plant a oedd eisiau darllen chwilio am lyfr o'u dewis a'i gael.</p> | <p>Bydd Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc a'r darparwr dysgu a sgiliau yn rhoi strategaeth ddarllen ar waith ledled y carchar i hyrwyddo darllen a llythrennedd drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Novus Gower, G4S a darparwr y llyfrgell yn datblygu'r cwricwlwm a'r strategaeth ddarllen ar y cyd â strategaeth ddarllen ehangach YCS ac yn darparu hyfforddiant i staff i'w rhoi ar waith. Bydd y strategaeth yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr wella eu sgiliau darllen, gan gynnwys ar gyfer pleser. • Cwblhau sgrinio manwl ar gyfer pob plentyn fel rhan o'r rhaglen gynefino i asesu eu lefelau llythrennedd. • Bydd plant sydd â lefel llythrennedd o dan lefel mynediad 1 yn cael eu cyfeirio at raglen llythrennedd Ymddiriedolaeth Shannon er mwyn gwella eu sgiliau darllen. • Dyfarnu a gweithredu contract llyfrgell newydd erbyn mis Ionawr 2024, gan alluogi'r llyfrgell i fod yn agored ac yn hygyrch o ddydd Llun i ddydd Gwener. • Bydd plant yn gallu defnyddio'r llyfrgell drwy'r tîm cyfoethogi y tu allan i oriau arferol y llyfrgell. • Bydd y llyfrgell yn hyrwyddo llythrennedd yn y llyfrgell, ar unedau preswyl ac mewn addysg, gan weithio'n agos gyda'r darparwr addysg i sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar lyfrau ar bynciau sy'n rhan o'r cwricwlwm presennol. Bydd catalog wedi'i ddiweddarau o lyfrau ar gael ym mhob ardal, gan ganiatáu i blant archebu llyfrau i gefnogi eu dysgu presennol, neu ar gyfer pleser. • Bydd y gweithiwr teuluoedd, ar y cyd â'r llyfrgellydd, yn adolygu'r stoc bresennol o lyfrau i sicrhau ei fod yn cefnogi'r cwricwlwm addysg, ac yna'n ailgyflenwi stoc yn ôl yr angen. • Bydd pob maes cwricwlwm yn cefnogi'r strategaeth ddarllen drwy ddefnyddio corneli darllen mewn ystafelloedd dosbarth fel y'u cofnodir yn y Cynllun Datblygu Ansawdd. | <p>Darparwr Dysgu a Sgiliau / Cyfarwyddwr / HMPPS Cymru</p> | <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Mai 2024</p> |
|---|--|--|---|---|



| | | | | |
|---|---|--|---------------------------|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gweithgaredd cyfoethogi penodol ar gyfer plant yn seiliedig ar ddarllen, gyda goruchwyliaeth gan y Rheolwr Cyfoethogi i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth. Bydd gwelliannau a chynnydd wrth weithredu'r strategaeth ddarllen yn cael eu monitro a'u holrhain yng nghyfarfod misol y Bwrdd Partneriaeth. | | Chwefror 2024 Gorffennaf 2024 |
| 6 | Roedd rhai asesiadau risg ROTL ac adroddiadau rhannu gwybodaeth MAPPA o ansawdd gwael. | <p>Bydd y Rheolwr Ailsefydlu (RM) yn gwella ansawdd asesiadau risg ar gyfer Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL) a rhannu gwybodaeth am adroddiadau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd Pennaeth yr Uned Blant a'r RM yn adolygu'r prosesau asesu risg ROTL presennol a'r gwaith papur i ganfod unrhyw risgiau posibl. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael ar gyfer pob plentyn yn cael ei chasglu, gan gynnwys gwybodaeth a gedwir gan Dimau Troseddau Ieuenctid (YOTs), er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a ddylid cymeradwyo cais. Darparu sicrwydd ansawdd a goruchwyliaeth ffurfiol gan yr RM i nodi unrhyw faterion posibl a gofynion hyfforddi ar gyfer y tîm ailsefydlu o ran asesiadau risg. Adolygu'r awdurdod gwneud penderfyniadau ROTL presennol i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan reolwr priodol yn unol â Fframwaith Polisi ROTL. Bydd yr RM yn adolygu prosesau asesu risg presennol MAPPA a'r gwaith papur cysylltiedig, gan sicrhau bod yr holl adrannau'n cael eu cynnwys mewn ceisiadau am wybodaeth a phrosesau dadansoddi risg, gan gynnwys y Tîm Anghenion, Ymgysylltu a Llesiant, ac YOTs. Bydd yr RM, lle bynnag y bo modd, yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu mewn da bryd i gadarnhau lefelau MAPPA cyn rhyddhau plentyn. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr holl wybodaeth sydd ar gael yn cael ei rhannu â thimau yn y gymuned. | Cyfarwyddwr / HMPPS Cymru | Ionawr 2024 Ionawr 2024 Mawrth 2024 Chwefror 2024 Wedi'i gwblhau |



| | | | | |
|---|--|--|-------------------------------|---|
| | | <ul style="list-style-type: none"> Bydd goruchwyliaeth strategol o'r ddwy broses yn digwydd yn y cyfarfod misol ar gyfer diogelu'r cyhoedd ym maes Adsefydlu ac Aildroseddu ar gyfer achosion MAPPA ac ROTL. | | Wedi'i gwblhau |
| | Pryderon Allweddol | | | |
| 7 | Roedd y gwaith o oruchwyllo gofal iechyd yn annigonol ac nid oedd yn craffu digon ar y gwasanaeth i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol i bob plentyn. | <p>Bydd y Darparwr Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg), G4S a HMPPS Cymru yn gwella'r gwaith o oruchwyllo a chraffu ar ofal iechyd drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adolygu trefniadau llywodraethu ar gyfer gofal iechyd gyda'r Cyfarwyddwr Carchardai a'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol yn y bwrdd iechyd. Sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd i'r adran gofal iechyd yn CEF a Sefydliad Troseddwr Ifanc y Parc, lle byddant yn cael eu cofnodi, eu hymchwilio a'u datrys mewn ffordd briodol. Rhannu adroddiad gweithgarwch clinigol misol ar gyfer plant gyda phartneriaid perthnasol i wella goruchwyliaeth. Bydd plant yn cael eu trafod fel eitemau ar wahân ar yr agenda yn y cyfarfod llywodraethu iechyd wythnosol, cyfarfod iechyd misol Tîm Amlddisgyblaethol Carchar y Parc ac yng nghyfarfod chwarterol y Bwrdd Partneriaeth Iechyd. Bydd materion a nodwyd sy'n ymwneud â pherfformiad a chyflawni sy'n deillio o gyfarfodydd bwrdd partneriaeth y mae angen eu huwchgyfeirio yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru gan Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr HMPPS. Ychwanegu'r Uned PI fel eitem ar yr agenda i'r cyfarfod rheoli meddyginiaethau misol fel y gellir adolygu anghenion y plant. Hwyluso hyfforddiant staff gofal iechyd ar gyfer Nyrsys PI dynodedig i'w galluogi i gwblhau a chofnodi archwiliadau penodol, wedi'u hadolygu gan reolwr clinigol a'u llwytho i System Rheoli ac Orlhain Archwiliadau (AMaT) y Bwrdd Iechyd. | Darparwr Iechyd / Cyfarwyddwr | <p>Mawrth 2024</p> <p>Ionawr 2024</p> <p>Ionawr 2024</p> <p>Ionawr 2024</p> <p>Ionawr 2024</p> <p>Mawrth 2024</p> |



| | | | | |
|---|--|---|--|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> Bydd yr arweinydd clinigol sydd wedi'i leoli yn yr Uned PI yn trefnu trafodaethau un i un ffurfiol wythnosol a misol gyda'r nyrs Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i wella trefniadau gweithio ar y cyd. | | Chwefror 2024 |
| 8 | <p>Nid oedd anghenion iechyd y plant i gyd wedi cael eu hasesu ac nid oedd ganddynt fynediad digonol at ystod briodol o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd.</p> | <p>Bydd y Darparwr Iechyd, G4S a HMPPS Cymru yn sicrhau bod anghenion iechyd pob plentyn yn cael eu hasesu a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau priodol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, comisiynwyd dadansoddiad o anghenion iechyd plant i gefnogi datblygiad y gwasanaeth i ddiwallu anghenion plant. Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad o anghenion, bydd y cynllun gweithredu anghenion a nodwyd yn cael ei ddiweddarau. Recriwtio Nyrs Iechyd Meddwl Gofrestredig (RMN) gofal sylfaenol amser llawn ar gyfer PI. Rhan o'r rôl hon fydd darparu ymyriadau therapiwtig i blant er mwyn gwella iechyd meddwl a llesiant a darparu cymorth seicolegol. Bydd unrhyw blant y nodwyd bod ganddynt anghenion lleferydd ac iaith yn cael eu cyfeirio at wasanaethau Therapyddion Iaith a Lleferydd lleol i blant. Bydd G4S yn darparu ystafell bwrpasol i hwyluso gofal iechyd i sgrinio pob newydd-ddyfodiad gan ddefnyddio'r Adnodd Asesu Iechyd Cynhwysfawr (CHAT) cenedlaethol mewn gofod preifat i ganiatáu trafodaethau ystyrlon a diogel. Penodi Nyrs Gyffredinol Gofrestredig (RGN) ar gyfer PI fel bod pob ffurflen CHAT yn cael ei chwblhau'n brydlon ac yn unol â'r safonau cenedlaethol. Bydd yr arweinydd clinigol yn cyrchu hyfforddiant ar Aseidiadau Diddyfnu ar gyfer pob Nyrs PI, gan eu galluogi i asesu pob newydd-ddyfodiad o ran ei anghenion camddefnyddio sylweddau. Bydd y capasiti a'r galw am wasanaethau gofal iechyd yn Sefydliad Troseddwr Ifanc y Parc yn parhau i gael eu hadolygu'n barhaus drwy strwythur cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Partneriaeth Iechyd a fynychir gan y Cyfarwyddwr. | <p>HMPPS Cymru / Darparwr Iechyd</p> <p>Darparwr Iechyd</p> <p>Darparwr Iechyd</p> <p>Darparwr Iechyd</p> <p>Darparwr Iechyd</p> <p>Cyfarwyddwr</p> <p>Darparwr Iechyd / Cyfarwyddwr</p> | <p>Medi 2024</p> <p>Mawrth 2024</p> <p>Mawrth 2024</p> <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Mawrth 2024</p> |



| | | | | |
|----|--|--|--------------------------|-------------|
| | | • | | |
| 9 | Roedd cofnodion clinigol y plant o ansawdd gwael ac nid oeddent yn rhoi darlun cywir na chynhwysfawr o'r asesiad, y gofal a'r driniaeth. | <p>Bydd y Darparwr Iechyd yn gwella ansawdd cofnodion clinigol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd holl ddogfennau CAMHS yn cael eu cofnodi ar SystemOne (y system cofnodion clinigol electronig). • Bydd yr holl ddogfennau newydd yn cael eu cofnodi ar SystemOne a bydd yr holl ddogfennau presennol yn cael eu trosglwyddo. • Bydd pob apwyntiad yn cael ei ychwanegu at gyfriflyfr y clinig ar SystemOne i wella'r broses o archwilio ymgysylltiad cleifion ag apwyntiadau. • Bydd yr arweinydd clinigol yn cysylltu â'r uwch nyrs yn CAMHS i lunio cynllun archwilio sy'n cwmpasu pob disgyblaeth, gan gynnwys diagnosis, cynlluniau triniaeth a rhagnodi. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Bartneriaeth ym mis Mawrth 2024 at ddiben adolygu. Bydd cynnydd a chanlyniadau archwiliadau'n cael eu hadrodd i Grŵp Ansawdd a Diogelwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (a'r hyn sy'n cyfateb i hynny yn y grŵp gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD)), a'r Bwrdd Partneriaeth wedi hynny. | Darparwr Iechyd | Mawrth 2024 |
| 10 | Nid oedd y cwricwlwm addysg yn ystyried y farchnad lafur nac anghenion dysgwyr yn ddigon da. Nid oedd yn ffocysu'n ddigonol ar elfennau galwedigaethol, ac nid oedd gan yr adran addysg fawr o ran yn y gwaith o ddatblygu llwybrau addysg i blant. | <p>Bydd yr HoLS yn gwella'r cwricwlwm addysg i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar elfennau galwedigaethol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno cwricwlwm newydd i bobl ifanc o fis Mawrth 2024 ymlaen yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur, a fydd yn cynyddu ffocws galwedigaethol a gwell cyfleoedd i ennill cymwysterau lefel uwch a chymwysterau a gydnabyddir yn fwy eang sy'n ystyried anghenion addysgol, hyfforddiant a chyflogadwyedd plant yn y dyfodol. Gan gynnwys cyflwyno cymwysterau busnes/cyflogadwyedd ar gyfer Sefydliad Troseddwr Ifanc y Parc. | Darparwr Dysgu a Sgiliau | Mawrth 2024 |



| | | | | |
|----|---|--|--------------------------|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi system diwtorial newydd ar waith i gefnogi dysgwyr i ennill cymwysterau mewn ffordd fwy amserol, gan ganolbwyntio mwy ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd. • Bydd y darparwr dysgu a sgiliau, fel rhan o'r rhaglen DPP a'r broses monitro ansawdd, yn sicrhau bod tiwtoriaid yn rhoi'r cwricwlwm mewn cyd-destun digon da i alluogi dysgwyr i gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd yn eu hastudiaethau ymarferol neu eu bywydau bob dydd, gyda chynnydd yn cael ei gofnodi yn eu ILWPs. • Bydd gwelliannau a chynnydd o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg yn cael eu monitro a'u holrhain yng nghyfarfodydd y Rheolwyr, yr OMG a'r CRG. | | <p>Mawrth 2024</p> <p>Mai 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> |
| 11 | Nid oedd hunanwerthuso dysgu a sgiliau, gan gynnwys y defnydd o ddata, yn ddigon da i nodi meysydd i'w gwella. | <p>Bydd yr HoLS yn gwella'r broses o hunanwerthuso dysgu a sgiliau er mwyn sbarduno gwelliannau yn y ddarpariaeth drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno Adroddiad Hunanasesu newydd a Chynllun Datblygu Ansawdd sy'n cysylltu data â chanlyniadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. • Cyflwyno diwylliant o hunanwerthuso gonest a phrosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys arsylwi ar addysgu a dysgu, adolygiadau o waith dysgwyr ac arolygon dysgwyr. • Gwella'r defnydd o ddata gan reolwyr cwricwlwm i fonitro cyfraddau cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheini sydd ag ADY. • Trafod data o'r gronfa ddata 'CURIOUS' mewn cyfarfodydd rheoli wythnosol i werthuso cynnydd a chanlyniadau i ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY. • Bydd gwelliannau a chynnydd o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg yn cael eu monitro a'u holrhain yng nghyfarfodydd y Rheolwyr, yr OMG a'r CRG. | Darparwr Dysgu a Sgiliau | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> |

